**ELL 16- 01(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 8 Tachwedd 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol (Sesiwn Preifat) |
| Derek Adams | Pennaeth, yr Is-adran Addysg Uwch (Sesiwn Preifat) |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Richard Keveren | Pennaeth, yr Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd |
| Bob Waller | Yr Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd |
| Kerry Darke | Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Mike Moss | Yr Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd |
| Barbara Morris | Yr Is-adran Polisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Pauline Jarman

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Mick Bates Athro Cymwysedig, aelod o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn.

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd; Arweinydd Cyngor

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Alun Pugh Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach

**Sesiwn Cyhoeddus**

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiannau i'w datgan. Gwnaeth Mick Bates a'r Cadeirydd ddatganiadau pellach o fuddiant. *(Nodir y rhain uchod.)*
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon cynnal ei drafodaethau ar yr adroddiad drafft ar yr adolygiad o Addysg Uwch mewn sesiwn caeëdig, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi). Yr oedd Mick Bates wedi mynegi ei bryder yn y cyfarfod blaenorol ynghylch ystyried yr adroddiad drafft yn y dirgel ond dywedodd ei fod yn fodlon cytuno â gweddill y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad drafft yn y dirgel.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud datganiad ar ddiwedd y sesiwn cyhoeddus ynghylch datgelu'r adroddiad drafft ar yr Adolygiad o Addysg Uwch.

**Eitem Un: Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol/Fframwaith Sgiliau**

***Papurau: ELL 16-01(p.1) Strategaeth Datblygu Economaidd***

***Cenedlaethol***

***ELL 16-01(p.2) Cynllun Gweithredu Menter mewn Ysgolion ac Entrepreneuriaeth***

1.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried a rhoi ei farn ar y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth drafft mewn perthynas â'r Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Cyflwynodd y Gweinidog y papurau a chododd y prif bwyntiau canlynol:

- Yr oedd y Gweinidog wedi darparu papur cefndir ar Fenter mewn Ysgolion (ELL 16-01(p.2)), yn unol â chais Mick Bates yn y cyfarfod diwethaf.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi siarad mewn Cynhadledd Sgiliau y diwrnod cynt a chyfeiriodd at gynhadledd y llynedd pan roddwyd y prif sylw i lansio'r diploma sgiliau modern i oedolion ac ymestyn yr oedran fel y gallai rhai dros 25 ddilyn prentisiaethau modern, a.y.b. Gwnaethpwyd llawer o waith da yn ystod y flwyddyn – yr oedd Cynllun cyffredinol i Gymru a oedd yn canolbwyntio ar gyfalaf dynol. Ynghlwm wrth hynny yr oedd y Wlad sy'n Dysgu, Cymru ar ei Hennill, y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth a newidiadau i Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol.
- Yr oedd papur i'w nodi wedi ei ddarparu ar gyfer y cyfarfod a oedd yn amlinellu'r newidiadau hyn i Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol. Yr oedd llywodraeth y DU wedi darparu £1 miliwn yr un i Gynghorau Sgiliau Sector newydd i'r diben hwn ledled y DU o Ebrill 2002 ymlaen. Dywedodd y Gweinidog mai ELWa a fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r newid hwn yng Nghymru. Yr oedd llawer o gynigion yn dod drosodd, felly yr oedd angen dull cydlynol o weithredu.
- Disgrifiodd y Gweinidog y cynigion newydd a geir yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth sydd yn cynnwys:
- Trefniant a wnaethpwyd yng Nghymru ar gyfer gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector newydd a

fyddai'n cymryd lle Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol;

- Grwpiau Cyflogwyr i'w sefydlu i gryfhau mewnbwn cyflogwyr i Sgiliau Dyfodol Cymru;
- Gwella ansawdd profiad gwaith;
- Ailwampio rhaglenni hyfforddi, gyda dull sydd yn ymdrin â phob oedran;
- Rhaglen beilot o ddysgu am ddim i bawb hyd at Lefel Tri
- Yr oedd sgiliau yn gyswllt holl bwysig ag economi ffyniannus yng Nghymru mewn perthynas â gweledigaeth y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol. Yr oedd yr argymhellion yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth yn amlygu'r angen i wella'r berthynas rhwng y cyflenwad o sgiliau a'r galw amdanynt.
- Yr oedd y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth wedi ei ddosbarthu ar gyfer ymgynghori hyd Ragfyr 2001; yr oedd perthynas agos rhwng y Cynllun ac Adroddiad Tasglu Sgiliau Cymru a'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol.
- Yr oedd Menter mewn Ysgolion yn faes allweddol hefyd gan y byddai'n cyfrannu drwy baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth. Cytunwyd eisoes ar gontract ELWa a Gyrfaoedd Cymru ar gyfer y fenter hon. Yn y lle cyntaf, targedwyd y gr•p oedran 14-19 ar gyfer profiad gwaith ond yr oedd rhai mentrau llwyddiannus wedi rhedeg yn y sector cynradd. Yr oedd fframwaith ACCAC yn nodi y byddai'r holl ddisgyblion yn gwneud profiad gwaith ac yn gwneud dau o blith pedwar o weithgareddau ychwanegol.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n falch o dderbyn sylwadau oddi wrth y Pwyllgor. Yn benodol, byddai'n croesawu syniadau at y dangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur llwyddiant y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth.

1.3 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd peth pryder y gellid dyblygu cyflwyno Menter mewn Ysgolion oherwydd y nifer o wahanol lifoedd ariannu, a oedd yn cynnwys arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai un corff i gydlynu ariannu a chyflwyno. Yr oedd y Gweinidog o'r farn bod angen dull cydlynol o weithredu ynghyd â llif ariannu llyfn. Yr oedd y Cynulliad yn gweithio gyda'i bartneriaid, a oedd yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa a phartneriaid sector preifat.
- Yr oedd rhai o'r aelodau yn teimlo ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor yn cael gwybod yn rheolaidd am weithredu'r cynigion yn y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, gan ei bod yn broses bwysig ar gyfer penderfynu o ran ariannu a chydlynu. Cytunai'r Gweinidog y dylai'r rhai sydd yn gyfrifol am gyflwyno gael eu galw i gyfrif ar sail targedau ystyrlon, pendant. Gyda golwg ar hysbysu'r aelodau yn rheolaidd am gynnydd, eglurodd y Gweinidog fod y cynigion yn destun ymgynghoriad o hyd. Yr adeg briodol nesaf i adrodd i'r Pwyllgor fyddai ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Awgrymodd y Gweinidog y byddai'r mater yn ymddangos bob blwyddyn ar raglen waith y Pwyllgor, gan sicrhau y byddai'r Pwyllgor yn edrych ar y cynnydd yn fanwl. Atgoffaodd y Cadeirydd yr aelodau y gallent ofyn i'r Gweinidog gynnwys y mater hwn yn ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor neu gallent gysylltu â'r Cadeirydd i ofyn am ei roi fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol. Tynnodd y Gweinidog sylw at baragraff 14, yn ELL 16-01(p.1) gan fod y cynigion ar gyfer gweithredu yn nodi'r paramedrau i adroddiadau rheolaidd ar gynnydd/targedau.
- Pwysleisiwyd mor bwysig oedd clybiau e-fusnes a'r hyrwyddo ohonynt drwy'r Rhyngrwyd mewn perthynas â Menter mewn Addysg. Cytunodd y Gweinidog fod e-fusnes yn faes pwysig ac yr oedd y Cynulliad wedi dangos yr ymrwymiad hwn i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu drwy ddyrannu £18.4 miliwn o arian ar gyfer technoleg ystod lydan, amlgyfryngau a hefyd byrddau gwyn rhyngweithiol i bob ysgol yng Nghymru.
- Awgrymwyd y gallai'r Cynghorau Sgiliau Sector arfaethedig gynyddu biwrocratiaeth ac y gallai eu rôl fod yn debyg i'r Cynghorau Hyfforddi a Menter (sydd bellach wedi dod i ben). Gofynnodd un aelod a allai cyrff rhanbarthol ELWa gyflawni'r swyddogaeth hon. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn

dymuno ychwanegu at y fiwrocratiaeth bresennol. Yr oedd y cynigion ar Gynghorau Sgiliau Sector yn gysylltiedig ag ymgynghoriad ledled y DU a byddent yn sail i bartneriaethau o dan arweiniad cyflogwyr. O Awst 2002, byddai'r arian ar gyfer y 73 o Gyrff Hyfforddi Cenedlaethol presennol yn dod i ben a chyflwynid y Cynghorau Sgiliau Sector o Fawrth 2002 ymlaen. Yr Adran Addysg a Sgiliau a fyddai'n cyflwyno'r cyllid. Byddai'r Cynulliad yn cael budd o ddadansoddiadau sgiliau oddi wrth gyrff a oedd o dan arweiniad y sector preifat y gellid eu hystyried ochr yn ochr â'r dadansoddiad sgiliau bras ar lefel ranbarthol, a wneir gan ELWa. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai cyfle iddynt drafod hyn gydag ELWa pan oedd i siarad â'r Pwyllgor ynghylch ei Strategaeth Gorfforaethol ddrafft yn y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd.

- Holodd yr aelodau y Gweinidog am y nifer tebygol o Gynghorau Sgiliau Sector. Amcangyfrifodd Richard Keveren y byddai rhwng 25 a 30 o Gynghorau Sgiliau Sector y byddai pob un ohonynt yn bresennol yng Nghymru. Byddai'r cynghorau yn darparu tystiolaeth bendant o ochr y galw yn uniongyrchol o'r sector preifat y gellid ei chyfuno â gwybodaeth a ddarperir gan Sgiliau Dyfodol Cymru. Gallai ELWa ddefnyddio hynny wedyn i baru gwybodaeth ar yr ochr cyflenwi. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Addysg Ôl-16 (sydd wedi ei ddiddymu bellach) wedi mynnu yn ei argymhelliad ar Adroddiad y Gr•p Gweithredu Addysg a Hyfforddiant y byddai Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol yn gorfod ymateb i ddatganoli.
- Croesawodd yr aelodau y Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth ond gofynnodd un aelod am sesiwn briffio i'w hysbysu am gysylltiad cymhleth llawer o'r partneriaid, h.y. ELWa, Cynghorau Sgiliau Sector a Sgiliau Dyfodol Cymru, a.y.b. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid nodi hynny ar gyfer sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd y gellid ei chynnal yn y dyfodol.
- Eglurodd y Gweinidog fod y cynigion yn gymhleth ond bod y syniad yn syml: yr oedd pob rhan o'r system addysg a dysgu gydol oes i'w chysylltu â sgiliau. Byddai seminar briffio yn fwy priodol ar ôl i'r ymgynghoriadau ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Cyflogaeth ddod i ben.
- Gofynnodd y Cadeirydd i swyddogion o Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol baratoi diagram a fyddai'n tynnu sylw at y gwahanol sefydliadau, unedau ac elfennau yn y cynigion ar gyfer yr agenda sgiliau.

**Eitem Dau: Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH)**

***Papur: ELL 16-01(p.3)***

2.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adolygiad o fformiwlâu dyrannu GCAH a rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf iddo ar raglen 2002-03. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem a chyfeiriodd sylw'r Pwyllgor at y pwyntiau pwysig y teimlai y dylid eu nodi:

- Y rhaglen GCAH oedd un o brif fecanweithiau'r Cynulliad i gynnal mesurau a oedd â'r amcan o godi safonau mewn ysgolion. Yr oedd yn bwysig cofio nad GCAH oedd y mecanwaith ariannu cyfan.
- Bu'r Cynulliad yn gweithio gydag Awdurdod Addysg Lleol (AALlau) a grwpiau buddiant arbennig; yr oedd yr AALlau wedi croesawu'r cynigion gan mwyaf.
- Yr oedd cyllid newydd ar gael ar gyfer therapi iaith a lleferydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chynnal buddsoddiad TGCh (gan fwrw ymlaen ag ymrwymiad y Pwyllgor i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu), ymysg pethau eraill.
- Yr oedd gweithgor Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol/AALlau wedi argymell y dylid rhoi'r newidiadau i'r fformiwla ar waith dros gyfnod pontio o dair blynedd.
- Dechreuwyd ar yr amserlen GCAH yn gynharach fel y byddai mwy o amser gan AALlau i gysylltu â'u

hysgolion a pharatoi eu cynlluniau. Golygai hynny y byddai modd asesu cynlluniau AALlau yn gynharach na'r llynedd ac y gellid cadarnhau'r dyraniadau erbyn Ionawr 2002.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd yr aelodau'n croesawu'r cynnydd cyffredinol mewn cyllid GCAH. Yr oedd peth pryder o hyd, fodd bynnag, ynghylch y gwariant y disgybl mewn rhai AALlau: yr oedd y gwariant y disgybl yng Ngheredigion tua 15-20 y cant yn fwy nag yn AALl Merthyr Tudful ac AALl Caerffili (a amlinellir yn Atodiad B). Yr oedd pryder mai un o'r ffactorau a gâi'r effaith fwyaf ar gyrhaeddiad oedd amddifadedd cymdeithasol. Gofynnwyd i'r Gweinidog a allai egluro'r safonau pwysoliad o 33.3 y cant ar gyfer y ffigur setliad, a amlinellir yn Atodiad A. Atebodd Keith Davies fod y gweithgor wedi derbyn nad y fformiwlâu diwygiedig oedd diwedd y stori o reidrwydd. Yr oedd y gweithgor o'r farn mai'r newidiadau hyn oedd y rhai a oedd yn bosibl at ei gilydd ar gyfer y tymor byr ond bod dadl efallai dros newidiadau pellach ar ôl mynd drwy'r newidiadau presennol. Eglurodd Kerry Darke fod y setliad yn cael ei gyfrifo drwy gyfeirio at y nifer o blant y tu allan i drefi o fwy na 7,500 o bobl. Felly byddai'r ffigur setliad hwn yn lliniaru effaith teneurwydd poblogaeth. Ychwanegodd y Gweinidog mai ei dymuniad oedd peri i'r trefniadau fod yn dryloyw. Yn y gorffennol, yr oedd y cyllid wedi rhoi budd anghyfartal i rai AALlau gwledig. Yr oedd AALlau ledled Cymru wedi cefnogi'r newidiadau yn y fformiwlâu diwygiedig. Er bod y fformiwlâu GCAH wedi eu hailwampio'n sylweddol, nid oedd hynny wedi wedi arwain at fformiwlâu a oedd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar anghenion ond cymerwyd cam i'r cyfeiriad hwnnw.
- Er bod gan y Pwyllgor ychydig o bryderon ynghylch defnyddio setliad, yr oedd peth cytundeb, er hynny, fod y fformiwlâu newydd yn fwy ffafriol na'r hen fformiwlâu. Dywedodd y Gweinidog fod angen, yn wir, am fecanwaith cywrain i weithredu system seiliedig ar anghenion a addaswyd i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol.
- Cyfeiriodd yr aelodau at Weithgaredd GCAH 9: TGCh mewn Ysgolion. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut y defnyddid y mynegrif tlodi plant. Holodd yr aelodau a fyddai ardaloedd a ystyrid yn rhai cefnog yn cael eu diystyru felly ar gyfer ariannu. Eglurodd Kerry Darke fod y mynegrif wedi ei greu gan y Cynulliad ar y cyd â Phrifysgol Rhydychen ar sail y teuluoedd a oedd yn ddibynnol ar fudd-daliadau gan gynnwys cymhorthdal incwm a lwfans ceisio gwaith. Ychwanegodd y Gweinidog fod y ffigur setliad wedi ei gynnwys yn y maes Gweithgaredd GCAH penodol hwn – yn benodol ar gyfer pobl sydd yn byw mewn ardaloedd diarffordd heb ddim neu ddim ond ychydig o fynediad at adnoddau TGCh.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd unrhyw 'effaith lleddfu' ar gyfer AALlau yn ystod y cyfnod pontio. Atebodd Keith Davies y byddai'r broses gweithredu yn digwydd dros gyfnod o dair blynedd: un rhan o dair o'r newid yn y flwyddyn gyntaf, dwy ran o dair ohono yn yr ail flwyddyn a'r newid llawn yn y drydedd flwyddyn. Cyfeiriodd at y ffaith bod un AALl yr oedd ei ddyraniad i ostwng yn sylweddol wedi nodi yn ystod trafodaethau'r gweithgor fod yr egwyddorion cyffredinol a oedd wrth wraidd y newidiadau arfaethedig yn dderbyniol, os nad oedd barn rhywun wedi ei thywyllu gan y patrymau dyrannu yn y gorffennol.
- Yr oedd rhai aelodau yn bryderus na fyddai rhai AALlau a oedd o dan gyfyngiadau ariannol yn gallu estyn am y cwbl o'u dyraniad GCAH. Eglurodd y Gweinidog na fu hyn yn broblem yn y gorffennol: yr oedd cyllid GCAH yn gyllid a bridiannwyd. Byddai gofyn i'r AALlau a fyddai ar eu hennill o'r fformiwlâu/cyllid a ailwampiwyd sicrhau eu bod yn neilltuo mwy o arian ond yr oedd amserlen ar waith ar gyfer hynny; eleni dechreuwyd ar yr amserlen yn gynharach er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer cynllunio/trafod mewn AALlau.
- Codwyd mater rhagbrofion cynllunio rhanbarthol Anghenion Addysgol Arbennig. Nododd y Gweinidog y byddai'r rhain yn cael eu cyllido'n annibynnol ar GCAH yn y dyfodol ar sail Cymru gyfan ond y byddai'r adborth ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn o'r rhagbrofion rhanbarthol yn goleuo'r dull

gweithredu Cymru gyfan.

- Yr oedd peth pryder bod recriwtio a chadw therapyddion iaith a lleferydd yn annigonol o hyd. Yr oedd cwestiwn hefyd ynghylch Gweithgaredd GCAH 6 ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig: lle yr anogwyd datblygu cymorth annibynnol gan rieni, mae'n bosibl nad oedd rhai grwpiau ethnig yn siarad Saesneg. Pwysleisiodd y Gweinidog fod yr arian GCAH wedi ei ganolbwyntio ar feysydd hyfforddiant therapi ac y byddai cefnogaeth i gymorth annibynnol gan rieni lle'r oedd yn briodol. Nid oedd trefniadau GCAH yn cyfyngu'r gweithgareddau hyn i'r Gymraeg ac/neu'r Saesneg. Bu'r Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd yn Is-bwyllgorau'r Cabinet ac yr oedd y ddwy ohonynt yn disgwyl canlyniad y Gr•p Therapïau Gweithio. Yr oedd yn bwysig annog pobl i ymgymryd â rolau therapi a'u cadw.
- Trafodwyd mater cynhwysiant cymdeithasol. Tynnodd un aelod sylw at y berthynas rhwng Anghenion Addysgol Arbennig ac elfennau eraill: Cychwyn Cadarn a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod prif gyllid refeniw hefyd; yr oedd cod ymarfer newydd ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig yn 2002. Fodd bynnag, yr oedd nifer annigonol o staff therapi Anghenion Addysgol Arbennig hyfforddedig yn y system. Yr oedd angen adolygiad ar rôl therapyddion o'r fath ar lefel Cymru gyfan ac ar y modd i'w denu i'r system a'u cadw.
- Yr oedd yr aelodau hefyd yn croesawu'r Gronfa Datblygu Cerddoriaeth a oedd yn cynnig cymorth i gerddoriaeth ar ôl ysgol. Bu ymholiad ynghylch pwy a fyddai'n gwerthuso'r fenter hon. Dywedodd Keith Davies y câi gwerthuswr annibynnol ei benodi. Byddid yn ymgynghori â'r AALlau ynghylch y fframwaith bras ar gyfer y gwerthusiad. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod cynigion y Wlad sy'n Dysgu a Diwylliant Cytûn yn codi'r posibiliad o gronfa datblygu cerddoriaeth a'r celfyddydau os byddai arian ar gael.
- Gofynnodd un aelod a ellid rhoi arwydd i'r Pwyllgor, y tro nesaf y trafodai GCAH, o'r sail resymegol ar gyfer defnyddio setliad fel ffactor o gofio bod ei effaith uniongyrchol ar safonau cyrhaeddiad yn amheus.

**Eitem Tri: Cofnodion cyfarfod 31 Hydref**

***Papur: ELL 15-01(mins)***

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol ar 31 Hydref 2001. Codwyd y materion a ganlyn:

- Cyfeiriodd y Gweinidog at gofnodion 31 Hydref a thynnodd sylw at y paragraff olaf ond un ar dudalen pedwar. Yn lle "total provision amounted to between £2-£3m to initiate the agenda…" dylai fod wedi darllen, " additional provision amounted to between £2-£3m to initiate the agenda*…" (Newidiwyd y cofnodion wedyn).*

**Sylwadau'r Cadeirydd wrth Gloi**

- Cododd y Cadeirydd fater datgelu'r adroddiad drafft ar Adolygiad y Pwyllgor o Addysg Uwch. Daethai'n hysbys fod yr adroddiad drafft wedi ei drosglwyddo i Addysg Uwch Cymru gan aelod o'r staff ategol o Gr•p Plaid Cymru. Eglurodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi gofyn iddo gychwyn ymchwiliad i'r mater. Fodd bynnag, y diwrnod wedyn, yr oedd yr unigolyn wedi cyfaddef ei gyfrifoldeb i'r Cadeirydd mewn llythyr. Yr oedd y Cadeirydd wedi anfon llythyr o ymddiheuriad wedyn, gan ddisgrifio'r sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd ef nac unrhyw aelod

arall o Gr•p Plaid Cymru wedi arwain yr unigolyn yn ei weithredoedd. Aeth yr unigolyn gyda Rheolwr Busnes Plaid Cymru, Jocelyn Davies, at y Llywydd i gydaddef. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ystyried ymddiswyddo o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor; fodd bynnag, ar ôl derbyn cyngor a chael cefnogaeth gan aelodau eraill o'r Pwyllgor, penderfynasai beidio â gwneud hynny. Mynegodd siom hefyd fod trafodaeth orliwiedig ac anghywir wedi bod ar y digwyddiad yn y wasg leol. Yr oedd y digwyddiad wedi peri annifyrrwch personol i'r Cadeirydd ac yr oedd wedi peri annifyrrwch i Gr•p Plaid Cymru.

- Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod y mater wedi torri ar berthynas weithio'r Pwyllgor ag Addysg Uwch Cymru. Yr oedd y Cadeirydd wedi drafftio llythyr at Addysg Uwch Cymru, gan amlinellu pryder a siom y Pwyllgor ynghylch llenaenu'r adroddiad yn y maes cyhoeddus. Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau'r Pwyllgor ar y llythyr drafft yr oedd yn bwriadu ei anfon at Syr Adrian Webb (Cadeirydd Addysg Uwch Cymru). Yr oedd yr aelodau wedi derbyn copi o'r llythyr drafft. Ar ôl trafodaeth gyffredinol, cytunwyd y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr a newidiwyd y drafft fel a ganlyn:
- Dileu'r cyfeiriad at ofyn am yr adroddiad gan Addysg Uwch Cymru;
- Dileu'r ail baragraff; a
- Awgrymu bod Addysg Uwch Cymru yn cynnal ymchwiliad i'r mater.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd Alun Pugh ei fod wedi cyfeirio datgeliad yr adroddiad at y Pwyllgor Safonau.

**Papur i'w Nodi**

Nododd y Pwyllgor y papur canlynol:

**Trefniadau Newydd i Gymryd Lle Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol**

***Papur: ELL 16-01(p.4)***

**Sesiwn Preifat**

**Ymgymerodd y Pwyllgor â'i ystyriaeth o adroddiad drafft yr Adolygiad o Addysg Uwch mewn sesiwn preifat.**

**Atodiad A**

**Pwyntiau Gweithredu**

| Cam gweithredu | I'w gyflawni gan: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **1. Gofynnodd y Cadeirydd am gynhyrchu diagram i amlygu’r gwahanol sefydliadau, unedau ac elfennau yn y cynigion ar gyfer yr agenda sgiliau.** | **Swyddogion Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol** |